



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: Dydd Gwener, 23
Tachwedd 2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 29 TACHWEDD 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEAUDD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN BUDDIANNAU

Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 18fed Hydref, 2012 (copi'n amgaeedig).

5 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL (Tudalennau 19 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol (copi ynghlwm) yn manylu fersiwn diweddaraf Cofrestr Risg Corfforaethol Sir Ddinbych.

9.35 a.m.

6 LLYTHYR GWELLA CYNGOR SIR DDINBYCH (Tudalennau 27 - 36)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno'r Llythyr Asesu Gwelliannau ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

10.05 a.m.

Egwyl Gysur

7 SAFONAU PERFFORMIAD A DDANGOSWYD TRWY'R BROSES GWYNO (Tudalennau 37 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol (copi ynghlwm) yn cyflwyno dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd trwy bolisi adborth 'Eich Llais' Sir Ddinbych ar gyfer Chwarter 2 2012/13.

10.45 a.m.

8 SAFONAU GWASANAETH LLYFRGELL – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2011/12 (Tudalennau 43 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Arwain: Llyfrgelloedd, Archifau a Chelfyddydau (copi ynghlwm) sy'n manylu perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell mewn perthynas â Fframwaith Asesu Blynyddol CyMAL ar gyfer Awdurdodau Llyfrgell Cyhoeddus yng Nghymru.

11.15 a.m.

9 ADOLYGU MATERION TRWYDDEDU (Tudalennau 51 - 70)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn manylu'r adolygiad o bolisiau a gweithdrefnau trwyddedu tacsis a cherbydau hur preifat a a hysbysu ynglŷn â mecanwaith adrodd i'r Pwyllgor Trwyddedu.

11.45 a.m.

10 RHAGLEN GWAITH CRAFFU (Tudalennau 71 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cyd-gysylltydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o flaenraglen waith y Pwyllgor ac yn diweddarau'r Aelodau ar faterion perthnasol.

12.15 p.m.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Ian Armstrong
Meirick Davies
Richard Davies
Huw Hilditch-Roberts
Colin Hughes
Geraint Lloyd-Williams

Peter Owen
Dewi Owens
Allan Pennington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Iau, 18 Hydref 2012 am 9.30 am.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr C. Hughes (Cadeirydd), I.W. Armstrong, M.L.I. Davies, R.J. Davies, H. Hilditch-Roberts, P.W. Owen, D. Owens, A. Roberts, G. Sandilands ac Aelodau Cyfetholedig G Greenland, D. Houghton a Dr D. Marjoram.
Mynychodd y Cynghorwyr J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, M.L. Holland, G.M. Kensler ac E.W. Williams fel Sylwedyddion.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Cymorth Cwsmeriaid ac Addysg (JW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (GB), Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd (JM), Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Cynradd (GB), Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol (TW), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (CW), Swyddog Cwynion Corfforaethol (SG), Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (RH) a'r Swyddog Gweinyddol (CIW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ms C. Burgess a/ac Geraint Lloyd-Williams

2 DATGAN BUDDIANNAU

NI ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys er trafodaeth y mater canlynol sydd angen sylw brys dan Ran II:-

Cynrychiolaeth Pwyllgor Craffu Perfformiad ar Heriau Perfformiad Gwasanaeth – Esboniodd y Cadeirydd na fyddai ef a'r Cynghorydd A. Roberts yn medru mynychu'r cyfarfod Her Gwasanaeth Addysg a Chymorth Addysg i'w gynnal ar 24ain Hydref 2012 yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Cytunodd y Cynghorydd M.L.I. Davies fynychu'r cyfarfod a chynrychioli'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn absenoldeb y Cynghorydd C.L. Hughes.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

(i) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 6ed Medi 2012.

Materion yn codi:-

Gweddnewid Addysg Ôl-16 – wrth ateb cwestiwn gan Dr D. Marjoram ar dderbyn ymateb yn ymwneud ag ymchwil i os yw pobl ifanc gydag anabledd neu Syndrom Asperger yn cael eu hanfanteisio yn y system, cytunodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ymchwilio'r mater a rhoi ymateb i Dr Marjoram.

PENDERFYNWYD – *derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

(ii) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar ddydd Iau 20fed Medi, 2012.

Materion yn codi:-

4. Cynllun Corfforaethol – Cytunodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sicrhau bod y Cynghorydd D. Owens yn derbyn copi o Gynllun Busnes Menter Cefndy.

PENDERFYNWYD - *derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

5 ADOLYGU DARPARIAETH CYFNOD SYLFAEN A CHANLYNIADAU ASESIADAU DATA CYFNOD SYLFAEN, CA2 A CA3

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, a oedd yn aminellu canfyddiadau canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ac arholiadau darpariaethol ac asesiadau athrawon wedi eu dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Manylodd yr adroddiad y perfformiad mewn ysgolion ym mhob cyfnod allweddol ac amlinellodd ganlyniadau arholiadau allanol darpariaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Byddai dadansoddiad o'r canlyniadau yn cael ei ddarparu pan fyddai wedi ei ddilysu a phan fyddai gwybodaeth a feincnodwyd ar gael ym mis Rhagfyr.

Bu i'r Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Cynradd, grynhoi'r meysydd canlynol yn yr adroddiad:-

Cyfnod Sylfaen – Roedd proses gadarnach ar gyfer Canlyniadau Cyfnod Sylfaen wedi ei mabwysiadu ym mhob ysgol i sicrhau bod trefniadau yn ddibynadwy ac yn gadarn. Roedd dulliau blaenorol o asesu cynnydd plant rhwng Canlyniadau Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau CA1 wedi bod yn ddangosol ac nid yn ddiamod. Roedd Sir Ddinbych bellach yn 11eg yng Nghymru, o gymharu â 18fed yn y flwyddyn flaenorol, a oedd yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa prydau bwyd ysgol. Cynhwyswyd canlyniadau manwl yn Atodiad 1.

Canlyniadau Asesiad Athrawon Cyfnod Allweddol 2 – Ar ddiwedd CA2, disgwyliwyd y byddai disgyblion blwyddyn 6 yn derbyn Lefel 4 Asesiad Athrawon. Er bod sefyllfa

Sir Ddinbych yn 12fed wedi cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa prydau bwyd ysgol, roedd wedi bod yn siomedig gan mai uchelgais yr Awdurdod oedd bod yn y deg Awdurdod a berfformiai orau yng Nghymru ar gyfer yr holl ddangosyddion allweddol. Cynhwyswyd canlyniadau manwl yn Atodiad 2.

Bu i'r Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd, grynhoi meysydd canlynol yr adroddiad:-

Canlyniadau Aseiad Athrawon Cyfnod Allweddol 3 – roedd perfformiad yn CA3 wedi gwella gyda'r holl bynciau craidd wedi gweld gwelliannau arwyddocaol. Roedd y raddfa wella yn is na llawer o Awdurdodau Lleol eraill. Fodd bynnag roedd Sir Ddinbych wedi symud o'r 13eg i'r 17eg yng Nghymru. Cynhwyswyd canlyniadau manwl yn Atodiad 3.

Arholiadau Allanol Cyfnod Allweddol 4 – Cynhwyswyd canlyniadau manwl yn Atodiad 3.

Roedd holl ysgolion uwchradd wedi gwella yn nhrothwy Lefel 1 a Lefel 2. Fodd bynnag, roedd dwy ysgol wedi gostwng mewn perfformiad. Roedd y duedd genedlaethol mewn Saesneg a Mathemateg wedi dirywio gyda chanlyniadau Ôl-16 wedi aros yr un fath. Roedd canlyniadau cyfnod allweddol 4 yn rhai darpariaethol a byddai Llywodraeth Cymru yn darparu data manwl gwerth ychwanegol i Awdurdodau Lleol ac ysgolion. Cynhwyswyd manylion canran disgyblion yn cyflawni Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg, Saesneg a Mathemateg a chynhwyswyd canlyniadau trothwy Lefel 3 yn Atodiad 3.

Canlyniadau trothwy Lefel 3 (Lefel A a chymwysterau galwedigaethol cyfatebol) – roedd canran ymgeiswyr yn cyflawni Trothwy Lefel 3 wedi gwella o 97% yn 2011 i 98% yn 2012. Cynhwyswyd canlyniadau manwl yn Atodiad 3.

Cadarnhawyd bod moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel perfformiad uchel yn un o flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor, ac roedd codi cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig Cyfnod Allweddol 4, yn nod allweddol.

Byddai cymorth i ysgolion mewn Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei ddarparu'n rhanbarthol o fis Ebrill 2013. Byddai her a chymorth i Benaethiaid a rheolwyr mewn ysgolion yn cael eu darparu'n rhanbarthol o Ebrill 2013 gan Arweinwyr System. Byddai Swyddogion Addysg yn monitro ac asesu ansawdd y cymorth rhanbarthol pan fyddai'r systemau a'r strwythurau newydd yn bodoli erbyn Ebrill 2013. Byddai swyddogion yn gweithio yn y rhanbarth yn cryfhau'r broses gymedroli ar gyfer Aseidiadau Athrawon CA3 a byddai hyn yn gwella ansawdd cymedroli allanol a sicrhau dilyniant a chydarddoldeb Aseidiadau Athrawon ledled Gogledd Cymru. Hysbyswyd yr aelodau bod ansicrwydd yn parhau ynglŷn â Grant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid 'Potensial' CGE ar ôl 2014.

Ymatebodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Cynradd i gwestiynau gan Ms G. Greenland. Esboniodd y byddai papur ymgynghorol yn cael ei ddosbarthu a fyddai'n cynnwys cynigion radical mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen ac yn cynorthwyo gyda rhoi arweiniad cliriach i ysolion, Cadarnhawyd hefyd y byddai Gweithwyr Cyswllt Teulu yn cael ei defnyddio i ddelio â'r gostyngiad yn y nifer o Ymwelwyr lechyd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd J. Butterfield, cadarnhawyd y byddai'r papur ymgynghorol, a fyddai'n adolygiad radical o ddarpariaethau cymorth, yn cael ei ddisbarthu i'r holl randdeiliaid yn y Cyfnod Sylfaen. Rhoddodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd, fanylion Asesiadau Athrawon CA3 a Chanlyniadau Arholiad Darpariaethol mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd y Rhyl ac amlinellodd y camau a oedd yn cael eu cymryd i ddelio gyda, a gwella'r ffigurau. Esboniodd bod yr anghysonder mewn asesiadau lefel darllen rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymwneud ag amrywiad mewn Asesiadau Athrawon, a chadarnhawyd bod cofnodion yn ymwneud â chyraeddiadau academaidd plant dan ambarél rhianta corfforaethol ar gael.

Mynegodd y Cynghorydd E.W. Williams bod angen pwyll mewn perthynas â Chanlyniadau Sylfaen a gyflwynwyd gan rai Awdurdodau Lleol a mynegi'r farn bod Sir Ddinbych wedi bod yn gadarn iawn wrth ddadansoddi ei chanlyniadau Cyfnod Sylfaen. Pwysleisiodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Cynradd bwysigrwydd yr angen am asesu cadarn, unfurfiaeth a chymedroli rhanbarthol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynol, rhoddodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:

Roedd perfformiad i lawr oherwydd amrywiad

- Cadarnhawyd bod perfformiad i lawr oherwydd amrywiad yn y canlyniadau yn Ysgolion Santes Ffraid, Dinbych ac Ysgol Dinas Bran ond nad oedd hyn wedi bod yn fater a achosodd bryder
- Amlinellwyd manylion y broses ar gyfer asesu plant o ysgolion bwydo, a'r effaith ar asesiadau Ysgolion Uwchradd. Hysbyswyd yr aelodau bod proses drosglwyddo gadarn yn bodoli a strategaethau cysylltu rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd.
- Mynegodd Dr D. Marjoram ei gwerthfawrogiad i'r swyddogion am gynnwys Ysgolion Arbennig yn yr adroddiad.
- Cadarnhawyd bod data ar gael i alluogi i Ysgolion Cynradd olrhain cynnydd disgyblion ar ôl iddynt drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd. Pwysleisiodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Cynradd bwysigrwydd sicrhau troslwyddiad effeithiol disgyblion a'r gallu i fonitro eu cynnydd.
- Cyfeiriodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd at lwyddiant Ysgol Plas Bron Dyffryn, Dinbych a chadarnhaodd y byddai'r canlyniadau yn cael eu rhannu gydag Awdurdodau Lleol eraill.
- Esboniwyd bod y manau gwag dan bennawd Cymraeg yng Nghanlyniadau Asesiad Athrawon CA3 yn ymwneud ag ysgolion a oedd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith. Amlinellwyd manylion opsiynau asesu gan y swyddogion.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at ganlyniadau CA4 yn Ysgol Uwchradd Dinbych. Cadarnhaodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd bod canlyniadau mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod yn ffafriol.
- Ymatebodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd i gwestiwn gan y Cadeirydd yn ymwneud â Bandiau. Esboniodd y rhagwelwyd y byddai Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych ym Mandiau 2 a 3 a dim un ym Mandiau 4 a 5.

Cyfeiriodd y Cynghorydd A. Roberts at y Pwyllgor Safonau Ysgolion a chadarnhaodd bod Ysgol Y Castell, Rhuddlan wedi dangos arwyddion o wella. Esboniodd bod Ysgol Gynradd Clocaenog wedi cael canlyniadau eithriadol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon bod disgyblion a oedd yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol yn cael eu hanfanteisio wrth gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig plant o gefndir lle nad oeddynt yn siarad Cymraeg a bod hyn wedi ei adlewyrchu yn ffigurau cyrhaeddiad craidd yr Ysgol. Cymeradwyodd y Cynghorydd E W Williams y farn a fynegwyd a theimlai y dylid cymryd hyn o ystyriaeth.

PENDERFYNWYD:-

(a) Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn derbyn yr adroddiad, a

(b) Cydnabod barn a sylwadau'r Aelodau ar berfformiad ysgolion o gymharu â pherfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol.

6 ADOLYGIAD FFORMIWLA ARIANNU YSGOLION SIR DDINBYCH

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau, a oedd yn manylu'r cynigion ymgynghorol ar gyfer Fformiwla Ariannu Ysgolion newydd Sir Ddinbych mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau yr adroddiad a oedd yn manylu cynigion ar gyfer y fframwaith ariannu newydd ac yn amlinellu meysydd posibl risg gweithredol ac ariannol. Roedd Atodiad 1, y ddogfen ymgynghorol, wedi ei ddsbarthu i Ysgolion ar 1af Haydref 2012 yn amlinellu cynigion manwl y fframwaith ariannu newydd yn Sir Ddinbych. Roedd y newid mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â chategoreiddio dyraniadau ariannol, gyda'r fformiwla newydd arfaethedig yn seiliedig ar yrwyr cost gwirioneddol mewn ysgolion a oedd wedi eu rhannu rhwng saith elfen gweithgaredd strategol. Amlygwyd arwyddocad cyllid a arweinir gan y disgybl, dan y pennawd cwricwlwm. Roedd cynigion drafft yn destun newid dan ganlyniadau'r ymgynghoriad cyn eu gweithredu ym mis Ebrill, 2013.

Roedd dogfen ymgynghorol, Atodiad 2, yn rhoi dadansoddiad risg rhagarweiniol o bob ysgol yn dangos y symudiad yn y cyllidebau a lefel balansau presennol. Cynhelir cyfarfodydd ymgynghorol gyda phob ysgol i drafod y goblygiadau yn eu cyllidebau dirprwyedig eu hunain, ac roedd y dadansoddiad yn aros yn wrthrychol nes ceid trafodaethau manwl llawn. Esboniwyd bod angen cyflwyno unrhyw faterion a godwyd trwy'r broses ymgynghorol ffurfiol. Roedd dalen ffeithiau rheoli, Atodiad 3, yn rhoi cymhariaeth rhwng yr hen fformiwla a'r fformiwla newydd, ac yn rhoi cymorth i'r Aelodau wrth ddelio â rhai o'r materion allweddol os byddant yn codi.

Mynegwyd pryder gan yr Aelodau Cyfetholedig nad oeddynt wedi derbyn copiâu o Atodiad 2. Esboniodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau bod Atodiad 2 yn ddogfen weithredol a oedd yn seiliedig ar amcanestyniadau a oedd yn destun newid. Cytunwyd y byddai fersiwn wedi ei diweddarau o Atodiad 2 yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau Cyfetholedig.

Byddai canlyniadau'r adolygiad yn newid dosbarthiad cyllid ysgolion, i ganiatáu i ysgolion feddwl yn wahanol ynglŷn â sut roeddynt yn rheoli eu cyllid dirprwyedig, a byddai hyn yn cefnogi blaenoriaeth Moderneiddio Addysg. Ni fyddai costau ychwanegol gan y byddai'r Fformiwla Ariannu yn rhoi dull o ddsbarthu cwantwm cyfan yr ysgolion i bob ysgol unigol. Byddai hyn yn aros yr un fath beth bynnag fyddai canlyniad yr adolygiad, ond gallai arwain at ail-alinio cyllid yn wahanol rhwng ysgolion. Cafwyd ymgynghoriad gyda Phenaethiaid, Llywodraethwyr, Undebau Llafur, Swyddogion Addysg ac Aelodau Etholedig.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddsbarthu'n deg a chyfartal i bob ysgol. Byddai'n bwysig ystyried y materion ehangach mewn perthynas ag ysgolion yn colli cyllid, gan y byddai balansau a chynlluniau gwariant yn chwarae rôl hanfodol wrth asesu a fyddai colli cyllid yn cael effaith sylfaenol ar gyflwyniad addysg.

Ymatebodd y swyddogion fel a ganlyn i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â nifer yr ysgolion a oedd wedi eu nodi mewn coch yn y fformiwla ariannu. Prif bwrpas yr adolygiad yn y fformiwla ariannu oedd ail-alinio cyllid mewn perthynas â gofynion angen. Cadarnhawyd nad oedd coch o reidwydd yn dangos maes risg uchel ac mewn rhai achosion roedd yn cynnwys ysgolion a oedd yn derbyn cymorth gan swyddogion ar hyn o bryd.

- mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng dyraniadau cyllid ysgolion Cynradd ac Uwchradd, roedd cyllid sector wedi ei ystyried yn genedlaethol ac ymddengys ei fod yn gytbwys ac yn unol â'r dull cenedlaethol. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau y byddai'n cysylltu â'r Swyddogion Addysg perthnasol i gael persbectif addysg ar y materion a'r pryderon a godwyd.

- Wrth ymateb i bryder ynglŷn â nifer categorïau ysgolion, esboniwyd, ar ôl derbyn adborth cryf a dderbyniwyd wedi ymgynghoriad, y rhagwelwyd y byddai'r categori Cymraeg yn newid yn arwyddocaol gyda chyllid yn cael ei seilio ar asesiadau yn hytrach na chategorïau.

- Cyfeiriwyd at ddyrannu Grantiau Amddifadiad. Cadarnhawyd bod ystyriaeth wedi ei rhoddi i Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu ar wahân gyda grant benodol ar gyfer grant amddifadiad disgyblion. Hysbyswyd yr aelodau bod y dangosydd prydau bwyd ysgol am ddim wedi ei gynnwys i ddiwallu gofynion rheoliad ariannu ysgolion a oedd yn pennu'r angen am yrrwr ar gyfer amddifadiad cymdeithasol. Amlinellwyd manylion y ddarpariaeth cyllid cyfatebol i'r Pwyllgor.

- Hysbyswyd yr Aelodau bod y rheoliad maint dosbarthiadau yn ymwneud ag ysgolion a oedd eisoes wedi cyrchu cyllid ac ysgolion newydd yn dod i mewn i'r system. Amlinellwyd y meini prawf a oedd yn ymwneud ag ysgolion a effeithiwyd gan gyfyngiad amser mis Mehefin i'r Aelodau.

- Cyfeiriodd Dr D. Marjoram at y Cyfnod Sylfaen a gofyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer cymhareb cymorth i ddisgyblion a oedd wedi arwain at ostyngiad mewn cefnogaeth i Ysgolion Arbennig. Esboniwyd y bu awgrym bod meini prawf ariannu

blaenorol wedi ymddangos yn ffafriol. Fodd bynnag, byddai materion a godwyd mewn perthynas â hyn yn cael ystyriaeth bellach. Mewn perthynas â Bandiau Ysgolion Arbennig, cadarnhawyd mai'r swm fesul disgybl fyddai'r eitem gydbwyso. Fodd bynnag, byddai'r ddwy Ysgol Arbennig yn cyflwyno dulliau amgen o ddelio â'r mater. Cyflwynwyd amlinelliad o'r anawsterau o ran cael a dosbarthu darpariaeth ariannu gan y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau a gadarnhaodd y byddai cyllideb waelodlin a bennwyd yn cael ei chynhyrchu i dangos y cyllid sydd ei angen i gyflawni swyddogaethau statudol. Dywedodd hefyd na fyddai disgyblion Cymraeg fel iaith gyntaf, a thaliadau am ddisgyblion y tu allan i'r Sir, yn cael eu heffeithio.

- Darparwyd manylion yn ymwneud â dyraniadau ariannu mewn perthynas ag ysgolion ffederal ac ysgolion cyfun ac esboniodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau eu bod yn cael eu trin ar wahân ac y gallant neilltuo mwy o gyllid nag ysgolion cyfun dan y fformiwla.

- Mynegodd y Cynghorydd A Roberts bryder ynglŷn ag anghydbwysedd trefniadau cyllid ar ysgolion Cymraeg eu Cyfrwng. Esboniwyd bod y ffigurau yn rhoi cymhariaeth rhwng yr hen fformiwla a'r fformiwla newydd ac nid oedd yn dangos y gyllideb wirioneddol neu gostau gwariant yn yr ysgolion perthnasol. Roedd cyllid maint dosbarthiadau wedi ei gynnwys mewn polisi ar wahân a oedd yn rhoi cyfle i ysgolion wneud cais am gyllid dan y cynllun y tu allan i'r fformiwla. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau nad oedd newidiadau yn yr Ysgolion Cymraeg eu Cyfrwng yn gysylltiedig â'r newidiadau i'r cyllid Cymreig. Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai agwedd Gymreig cyllid yn cael ei hasesu ar ganlyniadau ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol perthnasol ac nid yn seiliedig ar categori'r Ysgolion.

- Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau y byddai dyraniadau ariannu ysgolion yn cael eu diogelu. Cyfeiriodd at bolisi'r Cyngor ar enillion o werthu asedau dros ben, megis Ysgol Rhualt, yn cael eu dyrannu i'r blaenoriaethau corfforaethol a gwneud ceisiadau am unrhyw ofynion ariannu ar sail blaenoriaeth.

- Esboniwyd bod y ffigurau a ddarparwyd yn seiliedig ar ddata o'r flwyddyn flaenorol. Cadarnhawyd nad oedd data ar gael eto i gynhyrchu ffigurau cyllideb y flwyddyn nesaf. Serch hynny, byddant yn cynnwys niferoedd tebygol ar y gofrestr.

- Wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd M.LI. Davies ar natur gadarn y penderfyniad yn yr adroddiad, cadarnhawyd mai drafft oedd y ddogfen a'i bod yn destun ymgynghoriad. Cyfeiriodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg at yr amserlen dynn mewn perthynas â dosbarthu cyllidebau i ysgolion a chadarnhaodd y gellid cyflwyno adroddiad cynnydd i gyfarfod mis Tachwedd 2012 y Pwyllgor Craffu.

Ar ôl trafodaeth bellach, fe:-

BENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad:-

(a) Yn derbyn yr adroddiad ac yn cadarnhau cydnabyddiaeth o oblygiadau newidiadau yn y Fformiwla ar gyfer y fframwaith ariannu.

(b) Yn cymeradwyo'r fethodoleg ar gyfer pob elfen o'r Adolygiad Fformiwla, a

(c) Yn cytuno bod swyddogion yn ymgymryd ag adolygiad o'r fframwaith ariannu ac yn cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i gyfarfod Tachwedd 2012 y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

7 CYDYMFFURFEDD CYNLLUNIO – DIWEDDARIAD

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio, a oedd yn amlinellu'r adnoddau cyfreithiol ac eraill a oedd ar gael i'r Tîm Gorfodi Cynllunio a'i berfformiad o ran cyflwyno gwasanaeth, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn manylu sut ymgwymerwyd â swyddogaeth statudol Cydymffurfiaeth Cynllunio. Roedd yn amlinellu gwaith y tîm Cydymffurfiaeth Cynllunio wrth ddelio gyda thoriadau rheolaeth gynllunio posibl, rôl y Cyngor o fewn y Grŵp Gorfodi Adfywio ehangach, blaenoriaethau presennol lefel uwch y tîm ac esboniodd sut gellid trin peth o'r gwaith lefel isel. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd ac effeithiolrwydd gwaith cydweithredol rhwng yr amrywiol feysydd gwasanaeth a Chyfarwyddiaethau.

Rhoddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu grynodedb o faterion a meysydd allweddol yr adroddiad, a oedd yn cynnwys:-

- Amlinelliad o'r system Cynllunio Gwlad a Thref yng Nghymru sy'n rheoleiddio defnydd a datblygiad holl dir ac adeiladau.
- Ystod y pwerau gorfodi dan Ran VII Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- Taflen canllaw cyflym Llywodraeth Cymru, a gynhwyswyd fel Atodiad 1, a oedd yn esbonio trefniadau Gorfodi Cynllunio.
- Crynodeb o Swyddogaeth Cydymffurfio Cynllunio Sir Ddinbych ar hyn o bryd.
- Copi o ddogfen Polisi a Gweithdrefn ddrafft Cydymffurfiaeth Cynllunio Sir Ddinbych, Atodiad 2, a oedd yn nodi sut mae'r tîm yn delio â chwynion.
- Matrics sgorio i amlygu safleoedd sy'n achosi problem yn ôl blaenoriaeth.
- Dogfen Cynnig Prosiect yn ymwneud ag ad-drefnu presennol y swyddogaeth Cydymffurfiaeth, a gynhwyswyd fel Atodiad 3.
- Rhestr o faterion Cydymffurfiaeth Cynllunio wedi eu categorio fel rhai lefel isel ac uchel, a gynhwyswyd fel Atodiad 4.
- Amlinelliad o'r mesur perfformiad a dderbyniwyd ar gyfer delio â chwynion cynllunio.
- Creu dangosyddion mwy penodol, ynghlŷn â monitro cytundeb cyfreithiol adran 106, delio gyda safleoedd ac adeiladau sy'n achosi problem, gan gynnwys safleoedd sy'n ddolur llygaid, a delio gydag achosion cydymffurfiaeth cynllunio a amlygir gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Cadarnhawyd bod risgiau yn gysylltiedig â methu â darparu swyddogaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio a oedd yn gydgysylltiedig a chadarn. Awgrymwyd y byddai agwedd mwy pendant tuag at holl swyddogaethau rheoleiddio yn helpu gwella perfformiad yn y maes hwn.

Wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd M.LI. Davies, cadarnhawyd bod gwybodaeth ar natur cwynion, enw a chyfeiriad eiddo, ar gael ar hyn o bryd ar ddatbas a gaiff ei fonitro gan yr Adran. Esboniwyd bod materion yn ymwneud â pherchnogaeth eiddo a oedd yn destun cwynion yn cael eu hymchwilio. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio at rôl swyddogion Gorfodi Cynllunio a'r agwedd holistig tuag at ddelio â safleoedd sy'n achosi problem. Cyfeiriodd at y broses o ad-drefnu'r gwasanaeth a'r angen i ddarparu ffocws mewn perthynas â swyddogaeth graidd gorfodi cynllunio, i gynnwys dull aml-swyddogaeth bychan.

Ymatebodd y Rheolwr Rheoli Datblygu i gwestiwn gan y Cynghorydd G. Sandilands mewn perthynas â monitro Cytundebau Adran 106, swyddogaeth graidd gorfodi cynllunio. Rhoddodd grynodedb o'r broses a fabwysiadwyd gan Sir Ddinbych a chyfeiriodd at dudalen 97, Blaenoriaethau Baich Gwaith Cydymffurfio Cynllunio, Gwaith Lefel Uchel, a oedd yn nodi rhestr o flaenoriaethau baich gwaith Cydymffurfiaeth Cynllunio.

Ymatebodd y swyddog fel a ganlyn i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Y broses o enwi a rhifo strydoedd yn cael ei chyflwyno gan yr adran briffyrdd.
- Cadarnhawyd bod swyddogion ar y safle a oedd yn dod yn ymwybodol o broblemau nad ydynt yn gysylltiedig â'u gwasanaeth penodol hwy, oherwydd diwylliant y gwasanaeth, yn adrodd ar y mater i'r gwasanaeth perthnasol.
- Wrth ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd A Roberts ar faterion yn ymwneud â materion cynllunio yn Rhuddlan, amlinellodd y Rheolwr Rheoli Adeiladu y cefndir a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â safle Bryn Cwybr a chytunodd ddiweddu'r Cynghorydd Roberts pan dderbynnir gwybodaeth bellach. Mewn perthynas â'r safle datblygu ger Marsh Road, Rhuddlan, esboniwyd y gellid delio â'r mater hwn orau gan swyddogion yn y Gwasanaeth Adfywio yn annog datblygwyr i fuddsoddi yn yr ardal.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, diolchodd y Cynghorydd M LI Davies i'r Swyddogion Gorfodi am y gwaith a ymgymerwyd.

PENDERFYNWYD – *bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn derbyn a chydabod cynnwys yr adroddiad a chydabu'r swyddogion sylwadau'r Aelodau.*

8 SAFONAU PERFFORMIAD A DDANGOSWYD TRWY'R BROSES GWYNO

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol, yn rhoi dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir trwy bolisi adborth Sir Ddinbych 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 2012/13, ac yn amlygu meysydd gwaith a oedd yn cael eu hymgymryd ar hyn o bryd i wella perfformiad, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd yr adroddiad wybodaeth ar faterion perfformiad a nodwyd gan 'Eich Llais', a'r argymhellion i ddelio â'r meysydd a nodwyd. Cyfeiriodd y Swyddog Cwynion Corfforaethol ar Atodiad A, gwybodaeth 'Eich Llais' a oedd yn manylu

amserau adrodd 'Eich Llais', mesurau perfformiad ac amserlenni ymateb i gwynion. Roedd Atodiad B, data Chwarter 1 2012/2013 'Eich Llais' yn manylu amserau ymateb cyffredinol i gwynion, amserlen ymateb yn ôl cam, canmoliaeth a dderbyniwyd a chategorïau cwynion, ac amlygodd y materion allweddol canlynol:

Uchafbwyntiau:-

- Cynnwys ystadegau yn ymwneud ag amserau ymateb cyffredinol y Cyngor i gwynion yn ôl amserlenni 'Eich Llais'.

Amserau ymateb i gwynion:-

- Rhoddwyd mwy o bwyslais ar fonitro amserau ymateb y gwasanaeth i gwynion.
- Atgoffwyd gwasanaethau sut i ddefnyddio'r system gorfforaethol ar gyfer cofnodi a diweddarau cwynion.
- Gwelliant gweladwy ym mherfformiad cyffredinol y Cyngor wrth ymateb i gwynion o fewn amserlenni 'Eich Llais'.
- Roedd y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dangos gwelliant o gymharu â chwarterau blaenorol.
- Rhagweld y bydd tuedd ar i fyny yn parhau ar gyfer pob gwasanaeth.
- Er gwaethaf cynnydd 18% yn nifer cyffredinol y cwynion a dderbyniwyd yn Chwarter 1, roedd y nifer wedi aros yn gymharol isel.
- Dim ond hanner y meysydd gwasanaeth a oedd wedi medru ymateb i 100% o'r cwynion o fewn yr amserlen berthnasol.

Gwella perfformiad:-

- Yr angen i wella sut caiff cwynion eu trin ac ymateb i o leiaf 95% o'r cwynion o fewn yr amserlen a nodwyd. Dwy safon generig i'w mabwysiadu ar draws yr Awdurdod.
- Dwy safon generig i'w mabwysiadu ar draws yr Awdurdod.
- Yr angen i ddangos bod y Cyngor yn gwrando ar ei gwsmeriaid ac yn newid pethau er gwell yn seiliedig ar yr hyn a ddywedir wrthynt.
- Trin cwynion o fewn yr amserlen.
- Gwelliannau mewn gwasanaeth o ganlyniad i adborth cwsmeriaid.

Adroddiadau Wythnosol Gwasanaethau:-

- Adroddiad wythnosol i'w ddsbarthu i swyddogion sy'n gyfrifol am gydgyssylltu ymatebion i gwynion yn y gwasanaethau. Swyddogion i gael gwybodaeth i'w cynorthwyo gyda thrin cwynion yn fwy effeithiol, a rhwystro diffyg cadw at amserlenni.

Cyflwyniad yng Nghynhadledd Rheolwyr Canol:-

- Cyflwyniad i'w roddi i holl 'Reolwyr Canol'; i godi proffil 'Eich Llais' a chanolbwyntio sylw ar wella profiadau cwsmeriaid.

Canolbwyntio ar y cwsmer:-

- Cyflwyno elfen adborth 'cyn cwyno' yn 'Eich Llais' i annog dialog ac ymgysylltiad gyda chwsmeriaid y Cyngor i ddangos bod y Cyngor yn gwrando ar ac yn ymateb i adborth.

Adnabod perfformiad da:-

- Yr angen i annog ac adnabod cyd-destun ehangach 'Eich Lais' sy'n cyfeirio at ganmoliaeth dan faner 'Adborth'. Gellid defnyddio dadansoddiad o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd i adnabod arferion gorau ac yna defnyddio'r rhain mewn meysydd eraill neu wasanaethau eraill y Cyngor.

Rhoddodd y Swyddog Cwynion Corfforaethol grynoded byr o ganlyniad y Gynhadledd i Reolwyr Canol a gynhaliwyd ar 17eg Hydref 2012. Esboniodd bod y ffocws nawr wedi symud i sut mae'r cwsmer yn rhyngweithio a chysylltu â'r Cyngor, a chadarnhaodd bod polisi'r Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn wedi ei adolygu.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd M LI Davies, ac a ategwyd gan y Cynghorydd M L Holland, cytunwyd bod ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu i gofnodi cwynion a dderbyniwyd. Cyfeiriodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg at yr angen am newid diwylliannol yn yr Awdurdod, a'r angen i ail-ddylunio gwasanaethau, trwy ystyried tuedd cwynion a dderbyniwyd, er mwyn newid sut mae'r Cyngor yn cyflwyno ei wasanaethau i'r cwsmer. Cyfeiriodd hefyd at waith a ymgmerwyd mewn perthynas â safonau gwasanaeth ar gyfer y cwsmer, y wefan newydd a'r adolygiad o'r system CRM i ddelio â phroblemau gan y cyhoedd a swyddogion. Roedd yr adolygiad wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol a darparwyd amlinelliad o'r gwaith a oedd yn cynnwys adolygiad llwybr o'r system trin cwynion. Esboniodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg y byddai mater darparu cyfieithiadau yn cael ei ystyried o safbwynt y cwsmer. Esboniodd ei bod yn bwysig sicrhau bod cwynion a dderbyniwyd yn y Gymraeg hefyd yn cael eu hateb yn y Gymraeg.

PENDERFYNWYD – *bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad:-*

- Yn derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod yr awgrymiadau a wnaed i wella perfformiad y Cyngor trwy drin cwynion yn effeithiol, a*
- Bod y swyddogion yn cydnabod yr awgrymiadau a wnaed.*

9 ADRODDIAD ADOLYGU PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2011/2012

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol, yn rhoi gwybodaeth ar feysydd allweddol perfformiad ar gyfer y Cyngor, ac a fyddai'n caniatáu i'r Pwyllgor Craffu ymgymryd â'i swyddogaeth rheoli perfformiad, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a oedd wedi ei drafod gan y Cyngor ar 9fed Hydref, 2012. Roedd y Cynllun Corfforaethol 2009-12 yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac roedd cyhoeddiad Dogfen flynyddol Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2011-12 yn amlinellu sut roedd yn bwriadu cyfrannu tuag at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Roedd pob gwasanaeth y Cyngor yn cyhoeddi cynllun gwasanaeth ar gyfer 2011-12 i ddisgrifio sut roedd yn bwriadu cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau a gytunwyd ar gyfer cymunedau Sir Ddinbych. Roedd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi arfarniad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor yn cyflawni cynlluniau yn ystod 2011-12, ac yn dangos os oedd y Cyngor

wedi cyflawni'n llwyddiannus ei ymrwymiad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod y rownd nesaf o Heriau Perfformiad Gwasanaeth wedi cychwyn ac y byddai cyfle ar gael i Aelodau ystyried materion yn y fforwm hwnnw cyn ystyried eu cynnwys ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol, a ddatblygwyd gan y Tîm Gwelliannau Corfforaethol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor, yn arfarnu perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r dangosyddion allweddol a'r mesurau perfformiad, ac yn nodi sut yr oedd y blaenoriaethau corfforaethol wedi cael effaith yn lleol ar chwe ardal Sir Ddinbych. Cymerwyd yr wybodaeth ar berfformiad o system rheoli perfformiad Ffynnon ac roedd y ddogfen ddrafft wedi ei thrafod gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'i hanfon at yr Uwch Dîm Arwain er mwyn iddo wneud sylwadau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi adborth ar a oedd yr adroddiad yn debygol o alluogi i'r Cyngor fodloni gofynion statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 209. Cynhwyswyd manylion yr ymgynghori a fu yn yr adroddiad. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei wneud mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at arwyddocad Cynlluniau Trefi. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol bod dull o fonitro cynnydd Cynlluniau Trefi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gan gyfeirio'n benodol at y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynlluniau. Cadarnhaodd bod cynnwys y Cynlluniau Trefi, a oedd yn ddogfennau gweithredol, yn cael ei adolygu gan y Cynghorau Tref a Chymuned, Grwpiau Aelodau Ardal ac Aelodau Lleol ac y byddai adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

PENDERFYNWYD – *bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod sylwadau'r Aelodau a'r swyddogion.*

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ei Flaenraglen Waith ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd copi o Flaenraglen Waith y Cabibet wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Asesiad Gwelliannau Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru – ar ôl cais gan y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol i ystyried Llythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ar 17eg Medi 2012, cytunodd yr Aelodau bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor i'w ystyried yn y cyfarfod ar 29ain Tachwed, 2012.

Cynrychiolaeth Pwyllgor Craffu Perfformiad ar Heriau Perfformiad Gwasanaeth – cytunodd yr Aelodau bod y Cynghorydd D. Owens yn disodli'r Cynghorydd W L Cowie, nad oedd bellach yn Aelod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, yng nghyfarfod Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i'w gynnal ar 17eg Hydref, 2012.

Ystyriodd y Pwyllgor ei raglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, fel y manylwyd yn Atodiad 1, a chytunwyd y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

29ain Tachwedd 2012:-

- Adolygiad Fformiwla Ariannu Ysgolion Sir Ddinbych (Adroddiad Gwybodaeth).
- Asesiad Gwelliannau Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru.

21ain Chwefror 2013:-

- Adroddiad Arfarniad Perfformiad Blynyddol y Cyngor, AGGCC

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol at yr adroddiadau yn ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol 2012/2013 – Chwarter 2 a oedd wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr 2013, a Chwarter 3 a oedd wedi ei drefnu ar gyfer Ebrill 2013. Cytunodd yr Aelodau bod adroddiad gwaelodlin yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2013.

PENDERFYNWYD – *yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, cymeradwyo'r Flaenraglen Waith fel y nodwyd yn Atodiad 1.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: Pwyllgor Craffu Perfformiad

Dyddiad y Cyfarfod: 29 Tachwedd 2012

Aelod / Swyddog Arwain: Alan Smith / Y Cynghorydd Barbara Smith

Awdur yr Adroddiad: Tony Ward

Teitl: Cofrestr Risg Corfforaethol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r Gofrestr Risg Corfforaethol i Gyngor Sir Ddinbych (ynghlwm).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Galluogi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i gyflawni ei rôl wrth sicrhau bod y risgiau a nodir yn cael sylw priodol drwy gymryd camau effeithiol i'w lliniaru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cadarnhau bod y Gofrestr Risg Corfforaethol sydd ynghlwm yn rhoi holl fanylion y prif risgiau sy'n wynebu'r cyngor ar hyn o bryd, a bod y camau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol yn briodol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Dyma'r prif newidiadau a wnaethpwyd yn y Gofrestr Risg Corfforaethol ers y drafodaeth ddiwethaf yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad:

- Gwaredu DCC003: "*Y risg bod newid demograffig yn arwain at fynnu pethau sydd heb eu hadnoddu gan wasanaethau'r cyngor*". Ystyriwyd bod y risg hwn yn rhy isel a bod newid demograffig yn ddim ond un o'r ffactorau yr oedd angen i'r cyngor ei ystyried wrth lunio cynlluniau strategol.
- Newid DCC005 o fod "*Y risg bod yr amser a'r ymdrech a fuddsoddir mewn cydweithio yn anghymesur â'r buddion a sylweddolir*" i "*Y risg bod yr amser a'r ymdrech a fuddsoddir mewn prosiectau cydweithio mawr presennol yn anghymesur â'r buddion a sylweddolir*". Golyga hyn y gall y cyngor wahaniaethu rhwng y risg sy'n gysylltiedig â'r prosiectau cydweithio presennol a'r agenda cydweithio'n gyffredinol. Mae hyn wedi arwain at ychwanegu'r risg newydd (DCC015) a ddisgrifir isod.
- Gwaredu DCC008: "*Y risg bod newid gwleidyddol yn effeithio ar allu'r arweinwyr gwleidyddol (Arweinydd/Cabinet) i gyflenwi agenda anodd*". Roedd y risg hwn yn gysylltiedig â'r ansicrwydd ynghylch lefel y newid gwleidyddol a achoswyd gan yr etholiadau ym mis Mai 2012, a theimlir nad yw'r risg hwn yn ddigon perthnasol bellach i'w gynnwys yn y gofrestr risg corfforaethol.

- Diwygio DCC014: “Y risg bod digwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol neu golli bywyd” gan fod y cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch wedi symud o'r Pennaeth AD Strategol i Bennaeth yr Amgylchedd. O ganlyniad, mae'r risg hwn bellach yn cynnwys nifer o gamau lliniaru newydd.
- Creu risg newydd DCC015: “Y risg nad yw'r cyngor yn gallu dylanwadu ar yr agenda cydweithio a bod cydweithio pellach yn cael ei orfodi yn hytrach na'i wneud yn wirfoddol”. Mae'r risg hwn yn ymwneud â gallu'r cyngor i ddylanwadu ar yr agenda cydweithio, a'r diffyg democratig posibl os nad all wneud hynny.
- Creu risg newydd DCC016: “Y risg bod effaith diwygiadau lles yn fwy arwyddocaol nag a ragwelwyd gan y cyngor”. Mae'r risg hwn yn berthnasol i nifer o wasanaethau, a gallai effeithio'n sylweddol ar ein cymunedau.

4.2 Datblygwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, ac mae'n eiddo i'r tîm hwnnw. Dyma'r broses ar gyfer adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol:

- Caiff pob cofrestr risg gwasanaeth ei hadolygu gan wasanaethau (yn ôl y fethodoleg rheoli risg corfforaethol) cyn pob cylch o gyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaeth. Trafodir unrhyw faterion neu ymholiadau yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaeth.
- Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol yn dadansoddi'r holl gofrestri risg gwasanaeth i nodi unrhyw risgiau o arwyddocâd corfforaethol neu unrhyw themâu risg sy'n codi ar draws y gwasanaethau.
- Cesglir yr wybodaeth ddiweddaraf am risgiau corfforaethol cyfredol gan berchenogion risg, a'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau lliniaru gan berchenogion gweithred.
- Cynhelir gweithdy risg gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i adolygu risgiau presennol; trafod cynnydd ar gamau lliniaru y cytunwyd arnynt; trafod risgiau corfforaethol newydd a chytuno arnynt; adolygu a diweddarau sgoriau risg anodd cael gwared arno; diweddarau rheolaethau presennol (yng ngoleuni'r camau a gymerwyd); a chytuno ar unrhyw gamau newydd sy'n ofynnol i liniaru risgiau.

4.3 Caiff y Gofrestr Risg Corfforaethol ei hadolygu'n ffurfiol gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ar ôl pob cylch o Heriau Perfformiad Gwasanaeth (lle caiff pob cofrestr risg gwasanaeth ei hadolygu a'i thrafod). Fodd bynnag, rhoir gwybod i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol (drwy'r Tîm Gwella Corfforaethol) am unrhyw risgiau newydd neu sy'n debygol o waethygu'n sylweddol pan maen nhw'n cael eu nodi. Wedyn mae'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg hwnnw yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.

4.4 Ar ôl pob adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (dwywaith y flwyddyn), cyflwynir y ddogfen ddiwygiedig i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Roedd yr adroddiad hwn am gael ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Medi 2012 (ar ôl yr Heriau Perfformiad Gwasanaeth ym mis

Mehefin/Gorffennaf 2012), ond oedwyd hyn oherwydd pwysau ar yr agenda craffu ym mis Medi. Bydd yr adroddiad nesaf am y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Craffu'n digwydd yn y Flwyddyn Newydd, ar ôl y cylch cyfredol o Heriau Perfformiad Gwasanaeth.

- 4.5 Mae camau a nodwyd i fynd i'r afael â risgiau corfforaethol wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth, lle bo'n briodol, er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad fonitro cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â chyflenwi'r gweithgareddau hyn, yn rhan o'r broses Herio Perfformiad Gwasanaeth.
- 4.6 Mae adran Archwilio Mewnol y cyngor yn rhoi sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli mewnol a'r mecanweithiau sydd yn eu lle i liniaru risgiau ar draws y cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu mabwysiadu'n gyson drwy'r cyngor i gyd. Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'n cofrestr risg corfforaethol a gwasanaeth i lywio eu blaenraglen waith.
- 4.7 Bydd adolygiad ac adroddiad blynyddol am gynnydd y polisi rheoli risg, a lunnir i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn nodi meysydd gwan y mae angen eu cryfhau i wella'r broses rheoli risg.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Diben y Gofrestr Risg Corfforaethol yw nodi'r digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai effeithio'n andwyol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r rheolaethau a'r camau a nodir felly'n allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Mae'r gost o ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei llyncu gan y cyllidebau presennol.

7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?

- 7.1 Mae manylion y broses ymgynghori i adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol i'w gweld ym mharagraff 4.2.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r broses a amlinellir yn yr adroddiad hwn ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 9.1 Y prif risg sy'n gysylltiedig â'r broses rheoli risg yw nad yw'r cofrestrin cael eu hadolygu'n rheolaidd ac nad ydynt felly'n dod yn arf rheoli dynamig ac ystyrlon. Fodd bynnag, mae'r broses newydd yn cael ei chynnwys yn llwyr yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor a ddylai sicrhau na fydd hynny'n digwydd.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- Deddf Llywodraeth Leol 2000.



Denbighshire County Council 2012 - 2013

Corporate Risk Register

	Inherent	Residual	Page
DCC001 The risk of a serious safeguarding error where the council has responsibility. This risk is increasing as the environment is changing, with growing expectations around our duties in relation to 3rd party provision. CRB criteria are also changing which may increase the risk.	B2	C2	Link
DCC004 The risk that we are unable to develop the staff and management capability to deliver the change agenda. The council currently does not have the internal capacity to deliver this change. Some of the issues	B2	B2	Link
DCC005 The risk that the time and effort invested in existing large-scale collaboration projects is disproportionate to the benefits realised.	B2	C2	Link
DCC006 The risk that the economic environment worsens beyond current expectations, leading to additional demand on services and reduced income. Although we do have a 3-yr indicative settlement, this position	C1	C2	Link
DCC009 The risk that strategic ICT does not enable improvement and support change. This risk is growing, and will continue to grow until we act decisively to mitigate the risk.	A2	B2	Link
DCC010 The risk that our asset portfolio becomes an unmanageable liability and an obstacle to strategic planning.	B2	D2	Link
DCC015 The risk that the council cannot influence the collaboration agenda, and that further collaboration is forced upon on rather than entered into voluntarily. Collaboration is not voluntary; it is already a requirement of the Compact. However, it is resource intensive and benefits realisation can be difficult.	B2	B2	Link
DCC002 The risk of a judicial review of care home fees ruling against the council. The risk here is that the additional costs associated with care home fees are over & above what is currently built into the Medium	C2	D3	Link
DCC007 The risk that critical or confidential information is lost or disclosed.	B3	C3	Link
DCC011 The risk of a severe weather event, over and above expected patterns of seasonal weather. Services plan for the impact of expected seasonal variations in weather, but severe weather events can impact	E1	E1	Link
DCC012 The risk of a significantly negative report(s) from external regulators.	C2	D3	Link
DCC013 The risk of significant financial liabilities resulting from the failure of an external organisation (e.g. Arms Length Management Organisations, facilities with lease arrangements, etc)	C2	C2	Link
DCC014 The risk of a health & safety incident resulting in serious injury or the loss of life. This could be as a result of an ineffective H&S management system; inadequate fire control systems (infrastructure);	C2	D1	Link
DCC016 The risk that the impact of welfare reforms is more significant than anticipated by the council. Welfare reform has potentially significant implications for a large proportion of residents, and also on the council	B3	B3	Link

Risk Assessment Criteria

LIKELIHOOD	Event is almost certain to occur in most circumstances	>70%	Almost Certain	A					
	Event likely to occur in most circumstances	30-70%	Likely	B					
	Event will possibly occur at some time	10-30%	Possible	C					
	Event unlikely and may occur at some time	1-10%	Unlikely	D					
	Event rare and may occur only in exceptional circumstances	<1%	Rare	E					
					5	4	3	2	1
					Very Low	Low	Medium	High	Very High
Service Performance		Minor errors or disruption	Some disruption to activities / customers	Disruption to core activities / customers	Significant disruption to core activities. Key targets missed	Unable to deliver core activities. Strategic aims compromised			
Reputation		Trust recoverable with little effort or cost	Trust recoverable at modest cost with resource allocation within budgets	Trust recovery demands cost authorisation beyond existing budgets	Trust recoverable at considerable cost and management attention	Trust severely damaged and full recovery questionable and costly			
Financial Cost (£)		<£50k	£50k - £250k	£250k - £1m	£1m - £5 m	>£5m			
IMPACT									

Corporate Risk Severity Key

	Minor	Risk easily managed locally – no need to involve management
	Moderate	Risk containable at service level – senior management and SLT may need to be kept informed
	Major	Intervention by SLT and / or CET with Cabinet involvement
	Critical	Significant CET and Cabinet intervention

Denbighshire County Council

Register Owner: Corporate Executive Team

[LINK TO POLICY STATEMENT](#)

Updated: 12.11.12

[LINK TO RISK GUIDANCE](#)

Risk Description	Owner	Impact / Consequence	Inherent Risk	Controls to Manage Risk (in place)	Residual Risk	Further Actions	Action Owner	Action Date

Atodiad 1

Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012	Cynnydd
<p>C1 Fel awdurdodau eraill yng Nghymru, dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd.</p>	<p>Cynigiais y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad llywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses o ddiweddarau ei <i>Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol</i> a chytuno arno. Nododd yr adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gyflawni'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond nododd yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dair risg lywodraethu fawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu partneriaethau • Llywodraethu gwybodaeth • Perfformiad a datblygiad aelodau etholedig <p>Mae'r Cyngor yn drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol newydd. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ym mhob cyngor yng Nghymru ar lunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a byddaf yn llunio adroddiad cenedlaethol maes o law. Byddaf yn rhoi adborth pellach i'r Cyngor yn ddiweddarach eleni.</p>
<p>C2 Erbyn mis Medi 2012 dylai'r Cyngor bennu sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i> gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dangos sut mae'n gweddu i raglen adfywio'r sir; • cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gyflawni amcanion; • trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd o bryd i'w gilydd. 	<p>Cynigiasf erbyn mis Medi 2012, y dylai'r Cyngor bennu'n fanylach sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i>. Mae cyfrifoldeb rheoli o fewn y Cyngor ar gyfer <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i> yn mynd drwy gyfnod pontio fel rhan o'r broses o ad-drefnu dyletswyddau ymhlith penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor ac ar lefel uwch bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a benodwyd yn ddiweddar, yn gyfrifol am ddatblygu economaidd. Byddaf yn darparu asesiad pellach o gynnydd o ran cynllun cyflenwi <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i> yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	29 Tachwedd 2012
Aelod	Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg
Arweiniol/Swyddog:	
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Cwynion Corfforaethol
Teitl:	Safonau Perfformiad a Ddangoswyd trwy'r Broses Gwynion

1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Cyflwyno dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd trwy bolisi adborth cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 2 2012/13.

2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth ar unrhyw broblemau perfformiad a adnabuwyd gan 'Eich Llais', a gwneud argymhellion i ddelio â'r rhain.

3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor:

- 3.1 Yn cydnabod ac yn gwneud sylwadau ar berfformiad gwasanaethau, a
- 3.2 Yn penderfynu os yw perfformiad unrhyw wasanaeth wrth ddelio â chwynion yn gwarantu gwaith craffu manwl pellach neu gymorth ar hyn o bryd.

4 Manylion yr adroddiad

Uchafbwyntiau

Ymatebodd y Cyngor i **87%** o gwynion o fewn amserlenni 'Eich Llais' yn Chwarter 2. Mae hyn i lawr o 91% yn y chwarter blaenorol ac yn parhau i fod islaw'r targed corfforaethol, sef 95%.

Derbyniodd yr awdurdod 86 o sylwadau'n canmol yn chwarter 2, er nad yw'r ffigwr hwn yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol.

Amser ymateb i gwynion

Er bod perfformiad y cyngor o ben i ben wedi syrthio, mae nifer o bwyntiau i'w nodi.

- Roedd nifer o gwynion wedi eu dyrannu'n anghywir i wasanaethau. Mae rhai o'r rhain wedi eu hail-ddyrannu i 'Arall' – ac oherwydd eu bod wedi cael eu trin y tu allan i'r targed, maent wedi effeithio'r ffigurau perfformiad cyffredinol. Ni ddefnyddir y categori hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Mae'r Gwasanaethau Tai wedi 'sefydlogi' eu perfformiad ar ôl dau chwarter gwael ar ddiwedd 2011/12 ar ôl ad-drefnu.
- Mae Gwasanaethau'r Amgylchedd yn parhau i berfformiad'n dda, o ystyried mai hwy sy'n cael nifer fwyaf y cwynion. Ni ddiodddefodd y perfformiad yn arwyddocaol er gwaethaf cynnydd o 69% yn y cwynion yn ystod y chwarter.
- Cynyddodd nifer cwynion Priffyrdd 38% yn y chwarter, ond dim ond gan ychydig y llithrodd perfformiad.
- Ymddengys mai Cwynion Cam 1 yw ble mae'r broblem o ran methu ag ymateb o fewn yr amserlen – gydag 87% yn cael ymateb o fewn yr amserlen.

Gwella perfformiad

Y nod corfforaethol yw ymateb i o leiaf 95% o gwynion o fewn yr amserlen a nodwyd. Ar hyn o bryd rydym yn methu yn hyn o beth, a'r prif faes pryder yw ymateb i gwynion cam 1 y tu allan i'r amserlen 10 diwrnod gwaith.

Rhodddwyd cyflwyniad i Reolwyr Canol yn eu cynhadledd chwarterol ar 17 Hydref 2012. Roedd pwyslais penodol ar ddelio â chwynion ac ymateb i gwynion.

Mae cyfarfod i'w gynnal gyda swyddogion cwynion a pherfformiad gwasanaethau ym mis Tachwedd i atgyfnerthu ymhellach agwedd hon perfformiad i'r swyddogion hynny sy'n delio gyda a rheoli cwynion. Un nod y cyfarfod fydd ceisio deall pam nad yw cwynion yn cael ymateb o fewn yr amserlen. Bydd y canfyddiadau yn helpu llunio cynllun gweithredu i wella'r agwedd hon o drin cwynion, gan fwydo'r canlyniadau yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynwyd adroddiad misol ym mis Medi i'r Uwch Dîm Arwain, yn amlygu perfformiad mewn perthynas ag ymateb i gwynion.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Cyngor rhagorol, yn agos ag ei gymuned.

6 Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Dim – rôl bresennol Swyddog Cwynion Corfforaethol.

7 Pa ymgymghori a fu?

Adroddiad misol i'r Uwch Dîm Arwain.

8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol.

9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

Trwy beidio â delio â chwynion yn effeithiol, gall enw da'r Cyngor ddiodef.

10 Pŵer i Gymryd y Penderfyniad

Erthygl 6.3.4 Cyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Cwynion Corfforaethol

Ffôn: 01824 706197

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Atodiad A – Gwybodaeth ‘Eich Llais’

A1 Cyfnodau adrodd ‘Eich Llais’

A1.1 Defnyddir y cyfnodau canlynol i adrodd ar ddata mewn perthynas ag ‘Eich Llais’:

Chwarter 1: 1-Ebrill i 30-Mehefin
Chwarter 2: 1-Gorffennaf i 30-Medi
Chwarter 3: 1-Hydref i 31-Rhagfyr
Chwarter 4: 1-Ionawr i 31-Mawrth

A2 Amserlen ymateb i gwynion

A2.1 Mae polisi adborth ‘Eich Llais’ yn nodi y dylid glynu at yr amserlenni canlynol wrth ymateb i gwynion:

Cam 1: **10** diwrnod gwaith
Cam 2: **25** diwrnod gwaith
Cam 3: **15** diwrnod gwaith

A3 Mesurau perfformiad ‘Eich Llais’

A3.1 Defnyddir system goleuadau traffig i amlygu perfformiad mewn perthynas ag amserlenni ymateb i gwynion. Caiff perfformiad ei fesur yn ôl:

Coch	Llai nag 80% o gwynion wedi cael ymateb o fewn yr amserlen
Oren	Mwy nag 80% ond llai na 90% o gwynion wedi cael ymateb o fewn yr amserlen
Melyn	Mwy na 90% ond llai na 95% o gwynion wedi cael ymateb o fewn yr amserlen
Gwyrdd	Mwy na 95% o gwynion wedi cael ymateb o fewn yr amserlen

A3.2 I gynorthwyo gyda chanfod os yw perfformiad maes gwasanaeth wedi newid o’r cyfnod(au) blaenorol, mae’r allwedd canlynol wedi ei ddatblygu:

Symbol	Yn dangos
▲	Gwelliant mewn perfformiad
▼	Dirywiad mewn perfformiad
◀	Dim newid mewn perfformiad
	Dim data ar gyfer y cyfnod i gymharu
–	

Atodiad B – Data ‘Eich Llais’ Chwarter 2 2012/13

B1 Amser cyffredinol ymateb i gwynion

Maes Gwasanaeth	Chwarter 1 (12/13)				Chwarter 2 (12/13)			
	Derbyn	O fewn	%	Statws	Derbyn	O fewn	%	Statws
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	14	11	79%	▲ C	13	11	85%	▲ O
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	18	17	94%	▲ M	20	15	75%	▼ C
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	0	0	Dd/b	– –	0	0	Dd/b	– –
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	1	1	100%	– –	1	1	100%	◀ G
Gwasanaethau Cwsmeriaid	4	4	100%	◀ G	2	1	50%	▼ C
Yr Amgylchedd	26	25	96%	◀ G	44	42	95%	▼ G
Cyllid ac Asedau	7	5	71%	▼ C	8	6	75%	▲ C
Gwasanaethau Tai	26	21	81%	▲ O	15	14	93%	▲ M
Adfywio	1	1	100%	◀ G	3	3	100%	◀ G
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	17	17	100%	▲ G	11	10	91%	▼ M
Priffyrdd a Seilwaith	24	23	96%	▲ G	33	31	94%	▼ M
Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol	9	9	100%	▲ G	12	11	92%	▼ M
Addysg	1	1	100%	– –	0	0	0%	– –
Arall	1	1	100%	– –	4	0	0%	– –
	149	136	91%	▲ M	171	149	87%	▼ O

B2 Amser ymateb yn ôl cam

Chwarter 1	Cyfrif	O fewn	%
Cam 1	137	125	91%
Cam 2	8	7	88%
Cam 3	3	3	100%
Ombwdsmon	1	1	100%
	149	136	91%

Chwarter 2	Cyfrif	O fewn	%
Cam 1	159	138	87%
Cam 2	8	8	100%
Cam 3	4	3	75%
Ombwdsmon	0	0	
	171	148	87%

B3 Canmoliaeth a dderbyniwyd

Maes Gwasanaeth	Nifer	%
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion		
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant		
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	0	0%
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	1	<1%
Gwasanaethau Cwsmeriaid	2	2%
Yr Amgylchedd	44	51%
Cyllid ac Asedau	0	0%
Gwasanaethau Tai	4	5%
Adfywio	1	<1%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	4	5%
Priffyrdd a Seilwaith	20	23%
Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol	10	12%
Cymorth Addysg	0	0%

Addysg	0	0%
	86	

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Arwain: Llyfrgelloedd, Archifau a'r Celfyddydau (Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden)
Teitl yr Adroddiad:	Safonau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd: Adroddiad Blynyddol 2011-12

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn amlinellu perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn 2011/12 mewn perthynas â Fframwaith Asesu Blynyddol CyMAL i Awdurdodau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn 2011/12 mewn perthynas â 9 Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a 7 Dangosydd Perfformiad Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu:

- 3.1 yn ystyried yr adroddiad a'r sylwadau mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd mewn perthynas â'r Fframwaith Asesu Blynyddol,
- 3.2 yn darparu datganiad i CyMAL ynglŷn â pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, ac
- 3.3 yn pennu a oes unrhyw graffu pellach yn ofynnol

4. Manylion yr adroddiad

Fframwaith Asesu Blynyddol CyMAL ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

5. Mae Deddf Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd Cyhoeddus 1964 yn nodi dyletswydd statudol yr awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus i "ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon" ac mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i "arolygu a hyrwyddo gwelliant" gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â'r gofynion statudol hyn, bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru'n asesu Ffurflen Flynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru) sy'n canolbwyntio ar berfformiad mewn perthynas â 9 Safon a 7 Dangosydd Perfformiad.

6. Mae'r Fframwaith yn gweithredu am gyfnod o dair blynedd o fis Ebrill 2011 i fis Mawrth 2014, ac mae'n canolbwyntio ar gynnal gwasanaethau llyfrgelloedd craidd mewn cyfnod a gydnabyddir yn un heriol i'r sector cyhoeddus.

Safonau Llyfrgelloedd

7. Mae asesiad CyMAL o Adroddiad Blynyddol Sir Ddinbych yn cadarnhau bod yr awdurdod yn 2011-12:
- wedi cyrraedd 5 o 9 Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
 - wedi cyflawni 3 o'r Safonau'n rhannol
 - ac wedi methu â chyrraedd un Safon

Nifer cyfartalog y Safonau a gyrhaeddwyd gan awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru oedd 6, y mwyaf a gyrhaeddwyd oedd 8, a'r lleiaf oedd 3. Roedd CyMAL yn ystyried bod perfformiad Sir Ddinbych (sef 5 allan o 9 Safon) "ychydig islaw'r cyfartaledd o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru."

Safonau a Gyrhaeddwyd

8. Dyma'r pum Safon a gyrhaeddwyd gan yr awdurdod:
- Lleoliad a hygyrchedd llyfrgelloedd yn eu cymunedau
 - Mynediad at wasanaethau i grwpiau o ddefnyddwyr â gofynion mynediad penodol (e.e.: mynediad i'r anabl, gwasanaeth llyfrgell i bobl sy'n gaeth i'r tŷ, TG hygyrch)
 - Hygyrchedd oriau agor
 - Lefelau blynyddol caffael stoc i oedolion ac i blant
 - Bodloni ceisiadau ac archebion defnyddwyr

Safonau a Gyrhaeddwyd yn Rhannol

9. Mae gan rai Safonau lawer o isadrannau, a phan fydd awdurdod yn cyflawni o leiaf hanner y gofynion niferus, cydnabyddir bod y safon wedi'i chyrraedd yn rhannol. Llwyddodd Sir Ddinbych i gyrraedd 3 o'r Safonau'n rhannol:
- **Gwasanaethau a chyfleusterau TGCh.** Mae 14 o'r 15 gofyniad yn y Safon hon yn cael eu bodloni eisoes (e.e. nifer y cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd, cyfleusterau sganio ac argraffu, cyfleusterau ategion ar gyfer dyfeisiau cyfryngau digidol, a ffynonellau gwybodaeth ar-lein fel papurau newydd, hanes teulu a deunyddiau cyfeirio.) Yr unig elfen heb ei chyflawni yw darparu gwasanaeth diwifr yn y llyfrgelloedd hynny sydd ar agor am 30 awr neu ragor bob wythnos. Mae gan Sir Ddinbych 6 o lyfrgelloedd sy'n perthyn i'r categori hwn, ond dim ond yn Llyfrgell y Rhyl y mae gwasanaeth diwifr ar gael ar hyn o bryd.

- **Gwariant ar lyfrau a deunyddiau eraill.** Mae'r Safon benodol hon mewn dwy ran, gyda gwahanol darged gwariant wedi'i osod ar gyfer stoc Plant ac Oedolion. Er bod gwariant cyfunol Sir Ddinbych (sef £2,055 i bob 1,000 o'r boblogaeth) uwchlaw'r safon leiaf o £1,948, roedd blaenoriaethau stoc Sir Ddinbych ei hun ar gyfer 2011/12 wedi arwain at wariant chwarterel uchaf ar adnoddau i'r rheini o dan 16, a gwariant islaw'r lefel isaf ar gyfer oedolion. O ganlyniad, ystyriwyd bod y Safon wedi'i chyrraedd yn rhannol. Yn ddigon rhyfedd, mae hyn fel petai'n gwrthdaro â'r Safon ar Gaffael Stoc (gweler 8 uchod) lle llwyddodd Sir Ddinbych mewn gwirionedd i fodloni nifer lleiaf y pryniannau stoc sy'n ofynnol i oedolion ac i blant, sy'n awgrymu bod cydberthynas CyMAL rhwng y ddau'n anghywir rywsut.
- Gwariant ar adeiladau llyfrgell, a'u rheoli. Cydnabu CyMAL wariant Sir Ddinbych ar ofalu am ei hadeiladau llyfrgell a'u cynnal a'u cadw, ond nododd na ellir cyrraedd y Safon hon os nad oes Arolwg Cyflwr / Ased wedi'i gynnal ers 2006.

Safonau Heb eu Cyrraedd

10. Mae Sir Ddinbych ymhlith yr 8 awdurdod nad ydynt yn cyrraedd y Safon mewn perthynas â lefelau staff. Mae 4 swydd broffesiynol amser llawn wedi'u dileu o'r strwythur ers 1 Ebrill 2008 i fynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd, ac mae CyMAL wedi derbyn nad oes unrhyw gynlluniau i gynyddu'r lefelau staff. (Mae'r Safon yn cael ei chyrraedd gan 6 awdurdod, a'i chyrraedd yn rhannol gan 8 arall).
 - Ni fydd lefelau staff yn syrthio islaw 0.37 o staff i bob 1,000 o'r boblogaeth (Sir Ddinbych = 0.35)
 - Bydd o leiaf 23% o staff wedi cymhwyso'n ffurfiol mewn astudiaethau llyfrgell a gwybodaeth (Sir Ddinbych = 19%)

Dangosyddion Perfformiad

11. Mae CyMAL yn nodi bod Sir Ddinbych yn cyrraedd 5 o'r 9 Safon, ond mewn gwirionedd cyfartaledd Cymru yw 6, ac yn wir y nifer uchaf a gyflawnwyd oedd 8. Mae'r goblygiad yn glir – bod Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych islaw'r cyfartaledd.
12. Fodd bynnag, stori wahanol iawn a ddywed y gyfres o Ddangosyddion Perfformiad.
 - Yr 2^{il} Wasanaeth Llyfrgelloedd a ddefnyddiwyd fwyaf / yr ymwelwyd ag ef fwyaf ledled Cymru, gyda 7,864 o ddefnyddwyr i bob 1,000 o'r boblogaeth (yn ail i Gaerdydd yn unig). Mae'r dangosydd yn cynnwys ymweliadau personol â llyfrgelloedd, rhith-ymweliadau â gwefan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, a mynd i ddigwyddiadau a

gweithgareddau a drefnwyd gan y gwasanaeth (e.e. yr Wythnos Llyfrau Plant, ymweliadau awduron, sesiynau hyrwyddo llyfr etc). Cyfartaledd Cymru yw 5,884.

- Y 3^{ydd} awdurdod gorau yng Nghymru ar gyfer benthyca llyfrau a deunyddiau eraill, gyda 6,021 o fenthyciadau i bob 1,000 o'r boblogaeth. Cyfartaledd Cymru yw 4,823 o fenthyciadau.
 - 17^{eg} ar gyfer y ganran o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd sy'n cael ei gwario ar stoc. Er bod hyn yn ein gosod yn y chwarterl is ar gyfer gwariant ar stoc, mae'r ffigur benthyciadau uchel a grybwyllwyd uchod yn dangos bod yr arian yn cael ei wario'n effeithiol, a'i bod yn rhaid ein bod yn bodloni gofynion cwsmeriaid. Mae nifer uchel yr ymwelwyr yn cadarnhau hyn hefyd.
 - 12^{ted} ar gyfer y ganran sy'n manteisio ar y cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd. A thua 100 o gyfrifiaduron personol ar draws yr 8 llyfrgell, am 40% o'r amser, roedd y rhain yn cael eu defnyddio drwy gydol 2011/12. Mae defnydd yn amrywio o'r naill llyfrgell i'r llall, gyda mwy o alw yn y Rhyl nag unrhyw le arall, er bod pob llyfrgell fel petaent yn agosáu at 100% yn manteisio ar ôl 3.30pm ar ddiwrnodau ysgol.
- 13.** Mae ffigurau benthyca a defnyddio uchel Sir Ddinbych ar gyfer 2011-12 yn adlewyrchu llwyddiant ei Her Darllen Haf, sef y mwyaf llwyddiannus erioed yn Sir Ddinbych gyda 4,859 o blant yn cymryd rhan – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 29% ers 2010-11 [3,758]. Hwn eto oedd y ffigur cyfranogi uchaf yng Nghymru (cyfartaledd Cymru yw 1,830). Roedd 13.2% o'r plant a oedd yn cyfranogi yng Nghymru'n dod o Sir Ddinbych.
- 68% wedi'u cwblhau – yr uchaf yng Nghymru
 - 13.7% o gynnydd yn nifer y llyfrau a fenthyciwyd
 - 56% o blant oed cynradd yn cymryd rhan
 - 48% yn fechgyn – yr uchaf yng Nghymru
- 14.** Mae Sir Ddinbych yn y 4^{ydd} safle o ran ei gwariant net ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth ar Wasanaethau Llyfrgelloedd, er bod hyn yn arddangos buddsoddiad yr Awdurdod mewn darparu gwasanaethau a rennir a gwasanaethau lluosog o'i leoliadau llyfrgell (5 Siop Un Stop, 1 Amgueddfa, 4 Oriol Gelf, 1 Swyddfa Cefn Gwlad, ac 1 Ganolfan Groeso) gyda'r holl gostau ynni, gofalu, glanhau, Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) a chostau cysylltiedig yn cael eu talu gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Mae gwaith wedi dechrau ar lanhau'r data ariannol i adlewyrchu gwir gostau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, a bydd hyn yn parhau drwy gydol 2012-13.
- 15.** Ar y llaw arall, mae Sir Ddinbych yn yr 20fed safle gyda chost o £2.29 yr ymweliad/defnydd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o £2.84, a ffigur uchaf Cymru o £4.24.

16. Gellir gweld data Dangosyddion Perfformiad ar gyfer holl awdurdodau Cymru yn Atodiad A. Wrth symud ymlaen, byddwn yn cysylltu â Gwasanaethau Llyfrgelloedd eraill uchel eu perfformiad yng Nghymru i rannu arfer gorau a dysgu gan eu profiad.

17. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cyfrannu at iechyd a lles cymunedau lleol drwy ddarparu llyfrau a gwybodaeth, a gweithgareddau partneriaeth i bob oedran. Mae hefyd yn cyfrannu at Strategaeth Llythrennedd Sir Ddinbych, fel sy'n cael ei chydabod yn adroddiad Hunanasesu Estyn.

18. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau cost.

19. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Mae asesiad CyMAL wedi'i drafod gyda'r Aelod Arwain dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, yng Ngrŵp y Swyddog Arwain Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden ac yn y Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Llyfrgell.

20. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Rhoir gwybod yn flynyddol i CyMAL am berfformiad mewn perthynas â'r Fframwaith Asesu ar gyfer 2011-14. Er bod y gwerthusiad diweddaraf gan CyMAL yn nodi bod Sir Ddinbych yn tanberfformio gan gyrraedd 5 o'r 9 Safon, mae'n amlwg o'r Dangosyddion Perfformiad fod Sir Ddinbych ymhlith y rhai sy'n perfformio orau o ran ymweliadau â'r llyfrgell, defnydd a benthyciadau. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw risgiau'n ymwneud â'r asesiad cyfredol, ac mae'r gwasanaeth yn ffyddiog ei fod yn mynd i'r afael â'i flaenoriaethau ei hun o ran bodloni anghenion preswylwyr a chymunedau lleol yn Sir Ddinbych.

21. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Arwain: Llyfrgelloedd, Archifau a'r Celfyddydau
Ffôn: 01824 708203

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Dangosyddion Perfformiad Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLPI) 2011-2012

Tudalen 57

Awdurdod	WPLPI 1		WPLPI 3		WPLPI 4		WPLPI 5		WPLPI 6		WPLPI 7	
	Defnydd o'r gwasanaeth am bob 1,000		% Defnydd o'r PC		Benthyciadau am bob 1,000		% gwariant ar stoc		% gwariant ar y Gwasanaeth Llyfrgell		% gwariant cyfalaf ar Lyfrgelloedd	
Blaenau Gwent	6,360	7	46.7	7	3,350	21	8.5	21	0.79	16	0.00	19
Pen-y-bont ar Ogwr	4,243	20	33.0	17	3,838	20	12.5	14	0.90	14	0.10	14
Caerffili	4,692	18	24.0	21	4,026	18	11.9	15	1.15	2	1.38	3
Caerdydd	9,544	1	50.0	4	5,687	5	13.7	8	0.56	20	0.42	7
Sir Gaerfyrddin	5,102	17	82.0	1	4,957	9	7.8	22	0.60	19	3.40	2
Ceredigion	4,351	19	82.0	1	4,893	11	15.0	6	0.97	10	16.00	1
Conwy	5,803	11	46.3	8	5,047	8	13.2	11	0.96	12	1.14	4
Sir Ddinbych	7,864	2	40.3	12	6,021	3	11.4	17	0.98	8	0.09	15
Sir Fflint	5,496	14	31.0	19	4,957	9	13.5	10	0.91	12	0.03	18
Gwynedd	5,741	12	37.0	16	5,636	6	14.6	7	0.97	9	0.16	13
Ynys Môn	5,169	16	43.0	10	4,845	12	9.9	20	0.80	15	0.26	9
Merthyr Tudful	4,279	21	23.0	22	3,293	22	13.0	12	0.50	21	0.57	6
Sir Fynwy	6,719	5	41.0	11	6,180	1	18.2	2	1.00	6	1.03	5
Castell Nedd - Port Talbot	6,977	4	49.0	5	4,316	15	13.0	12	0.92	12	0.00	19
Casnewydd	6,288	8	65.0	3	4,270	16	30.0	1	0.70	18	0.05	16
Sir Benfro	6,035	9	32.7	18	4,803	13	17.1	3	1.07	4	0.04	17
Powys	6,418	6	37.8	14	5,871	4	10.3	19	1.02	5	0.22	12
Rhondda Cynon Tâf	5,939	10	39.8	13	3,919	19	17.0	4	0.77	17	0.31	8
Abertawe	5,701	13	49.0	5	6,129	2	16.2	5	1.00	6	0.24	10

Torfaen	4,169	22	44.4	9	4,085	17	11.9	16	0.50	21	0.00	19
Bro Morgannwg	7,348	3	37.7	15	4,626	14	10.9	18	1.30	1	0.20	11
Wreccsam	5,351	15	27.3	20	5,351	7	13.7	8	1.11	3	0.00	19

WPLPI 8			
Gwariant net am bob 1,000 (gan gynnwys Cymorth Canolog) £		Y gost ar gyfer pob ymweliad £	
18,370	3	2.89	10
15,290	16	3.60	3
19,915	2	4.24	1
14,983	17	1.57	22
15,826	14	3.10	6
12,882	21	2.96	9
16,215	11	2.79	13
18,006	4	2.29	20
16,639	9	3.03	8
16,419	10	2.86	12
15,834	13	3.06	7
13,426	20	3.14	5
15,684	15	2.33	19
17,339	5	2.49	17
11,323	22	1.80	21
16,168	12	2.68	14
16,677	8	2.60	15
14,324	18	2.41	18
14,362	19	2.52	16

Tudalen 60

17,121	7	4.11	2
21,070	1	2.87	11
17,244	6	3.22	4

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	29 Tachwedd 2012
Swyddog / Aelod Arwain:	Y Cynghorydd David Smith
Awdur yr Adroddiad:	Graham Boase (Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)
Teitl:	Adolygiad o faterion trwyddedu

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad yn gysylltiedig â'r adolygiad cynhwysfawr o weithdrefnau a pholisïau trwyddedu tacsis a cherbydau hur preifat a'i ddiben yw cynghori ar y mecanwaith adrodd i'r Pwyllgor Trwyddedu.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Mae'r Aelodau wedi gofyn o'r blaen am adroddiad am systemau trwyddedu tacsis a cherbydau hur preifat y Cyngor. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn sicrhau'r Aelodau fod Swyddogion yn adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod rheolaeth briodol ar dacsis a cherbydau hur preifat.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi'r dull a ddefnyddiwyd hyd yma ar gyfer y broses adolygu.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae tacsis a cherbydau hur preifat yn fodd pwysig o gludiant lleol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu system gadarn o drwyddedu tacsis a cherbydau hur preifat, sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn teithio'n ddiogel ac yn cael lefel dda o wasanaeth, ac nad yw amodau dianghenraid yn gosod baich gormodol ar yrwyr.
- 4.2 Yn Sir Ddinbych, ar hyn o bryd mae 17 o Weithredwyr Cerbydau Hur Preifat, 84 o gerbydau trwyddedig hur preifat, 49 o yrwyr trwyddedig cerbydau hur preifat, 238 o Gerbydau Hacni (Tacsis), a 338 o yrwyr trwyddedig Hacni (taksi) a cherbydau hur preifat. Y Tîm Gweinyddu Trwyddedu sy'n cael, yn ystyried ac yn cyhoeddi trwyddedau. Mae trwyddedau cerbyd yn cael eu cyhoeddi gan y Gwasanaethau Fflyd ar ôl eu hawdurdodi gan y tîm gweinyddu trwyddedu. Gall y system drwyddedu gynnwys nifer o dimau/asiantaethau, gan gynnwys y Tîm Gweinyddu Trwyddedu, Swyddogion Gorfodi Diogelwch Cymunedol, y Gwasanaethau Fflyd, Swyddogion Cyfreithiol, Aelodau, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu a'r Swyddfa Cofnodion Troseddol etc ac mae'n

bwysig sicrhau felly fod system gadarn ar waith sy'n ddealladwy i bawb. Mae'r Cyngor yn gweithredu Pwyllgor Trwyddedu sy'n ystyried ac yn cynnig polisïau, ac sy'n gwneud penderfyniadau fel corff lled-farnwrol, ar geisiadau unigol. Mae nifer o benderfyniadau'n cael eu dirprwyo i swyddogion a/neu Bennaeth Gwasanaeth.

- 4.3 Mae trwyddedu tacsis yn faes trwyddedu arbennig o gymhleth. Mae cydgysylltu a chyfathrebu rhwng meysydd gwasanaeth y Cyngor a hefyd asiantaethau partner yn annatod i weithredu'r system yn ddiogel, ac i ddiogelu'r cyhoedd. Ceir gwybodaeth sy'n nodi bod craidd o weithredwyr a gyrwyr nad ydynt yn cydymffurfio ac mae'r Awdurdod wedi cymryd camau cadarn yn erbyn gyrwyr a gweithredwyr a fethodd â bodloni'r safonau gofynnol, a bydd yn parhau i wneud hynny.
- 4.4 Er mwyn sicrhau bod y broses trwyddedu tacsis mor gadarn â phosibl a bod pob buddgyfranogwr yn deall y broses drwyddedu, dechreuwyd adolygiad llawn o'r broses trwyddedu tacsis yn ystod 2012.
- 4.5 Roedd hyn yn dilyn dull rheoli prosiect a gellir gweld y cynnig prosiect yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.
- 4.6 Cynhaliwyd cyfarfodydd â Swyddogion Gweinyddu Trwyddedu, Swyddogion Gorfodi Trwyddedu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Fflyd, Cludiant Ysgol a Heddlu Gogledd Cymru i adolygu pob proses drwyddedu fel grŵp. Roedd hyn yn nodi meysydd ar gyfer gwell cyfathrebu a chyflawnodd y canlyniad dymunol o egluro rolau a chyfrifoldebau yn y broses trwyddedu tacsis a sicrhau bod pawb yn deall yn well sut ddylai weithio. Hwyluswyd hyn gan yr adran Archwilio Mewnol a chafodd prosesau diwygiedig eu cynhyrchu a'u cylchredeg i'r grŵp i gytuno'n derfynol arnynt.
- 4.7 Cyfarfu'r grŵp ar 8 Tachwedd 2012 i gwblhau'r prosesau diwygiedig a chytuno arnynt, a fydd yn cael eu cyflwyno wedyn i'r Pennaeth Gwasanaeth ac yna'r Pwyllgor Trwyddedu. Mae prosesau diwygiedig enghreifftiol i'w gweld yn Atodiad 2.
- 4.8 Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio bellach i adolygu'r cynllun dirprwyo a rhannau perthnasol o'r Cyfansoddiad.
- 4.9 Mae'r prosiect yn dal ar y trywydd i'w gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2012. Bydd adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu yn ystod 2013. Gellir gweld y flaenraglen waith i'r Pwyllgor Trwyddedu yn Atodiad 3.
- 4.10 Efallai bydd y Pwyllgor Craffu am ystyried adolygu effeithiolrwydd y polisïau a'r gweithdrefnau diwygiedig rywbryd yn ddiweddarach yn 2013.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae'r gwaith ar adolygu'r broses trwyddedu tacsis, gyda phwyslais arbennig ar ddiogelu'r cyhoedd, yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaeth gorfforaethol

'Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed' a hefyd Canlyniad Gwasanaeth a nod ehangach cadw'n cymunedau'n ddiogel.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd y gost yn cael ei chynnwys yng nghyllideb y gwasanaeth.

7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal ac a oes Sgriniad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud?

7.1 Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal ar gyfer unrhyw Bolisi newydd neu ddiwygiedig a gynhrychir ar ôl yr adolygiad hwn.

7.2 Cafwyd ymgynghoriad â'r adrannau/gwasanaethau canlynol cyn yr adolygiad, yn ystod yr adolygiad ac ar ôl yr adolygiad: y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, yr Adran Gweinyddu Trwyddedu, Gorfodi Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Cludiant Ysgol, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Fflyd. Ystyriwyd yr ymatebion i gyd yn ystod y broses adolygu ac fe'u hymgorfforwyd lle'r oedd yn briodol yn y prosesau diwygiedig.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Ddim yn ofynnol.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Os na chytunir ag argymhellion yr adroddiad hwn, bydd y Cyngor yn gwneud ei hun yn agored i geisiadau a rhwymedigaethau posibl o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a safonau arfer gorau.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes unrhyw benderfyniad ffurfiol yn ofynnol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

	
--	---

The Project Proposal is the first document developed to introduce a project. It should expand the initial concept or idea to broadly define the scope of the proposed project (objectives, outcomes and outputs), and provide an estimate of the resourcing time and costs associated with progressing the initiative.

Project / Activity Name:	Review of Taxi Licensing Function		
Head of Service:	Graham H Boase	Service Area:	Licensing
Form Completed by:	Emlyn Jones	Date:	9 th July 2012
Project Sponsor:	Graham Boase	Project team:	Ivan Butler Nicky Jones Jo Thomas Tim Wynne-Evans
Project Manager:	Emlyn Jones	<i>If relevant</i>	

PROJECT TYPE

Please categorise your project type. Mark **one** box only.

This PID is for a work programme or block allocation (ie a collection of smaller works managed coherently together eg maintenance schemes, grant schemes, highway maintenance, etc)	<input type="checkbox"/>
The project scored 0 to 4 and is categorised as SMALL	<input type="checkbox"/>
The project scored between 5 and 10 and is categorised as MEDIUM	<input checked="" type="checkbox"/>
The project scored over 10 and is categorised as LARGE	<input type="checkbox"/>

Please complete the scoring matrix below to evidence your categorisation. This **is not** required if you have categorised the activity as a work programme or block allocation.

Criteria:	Score 0	Score 1	Score 2	
What is the total cost of the project?	Up to £50K OR Up to £150K (construction)	£50K to £150K OR £150K to £1mill (construction)	Over £150K OR Over £1 million (construction)	0
How long will it take to develop and implement the project?	Up to 3 months	3 to 12 months	Over 12 months	1
Which stakeholders are involved?	Mainly internal	Internal & external	Stakeholder opposition	1
Has Denbighshire done this sort of project before?	Many times	Once or twice	Never	1
What is the reputational risk to Denbighshire if we make significant mistakes in project delivery or the project fails?	Low	Medium	High	1

What is the financial risk to Denbighshire if we make significant mistakes in project delivery or the project fails?	Low	Medium	High	1
Total Score:				5

BACKGROUND INFORMATION

This section should provide a brief description of the project/activity you propose to undertake and the reason it is required. You should assume that the reader has no background knowledge.

Taxis and Private Hire Vehicles (PHV) are an important mode of local transport. They are of particular importance in areas that have limited public transport, such as our rural communities (such as Denbighshire). Denbighshire County Council have a responsibility to provide a robust taxi and PHV licensing system, which ensures the public travel safely, receive a good level of service and drivers are not overly burdened by unnecessary conditions.

In Denbighshire there are currently 17 PHV Operators, 84 PHV licensed vehicles, 238 Hackney Carriage Vehicles (Taxis), 49 licensed PH drivers and 338 Hackney and PHV licensed drivers. Licenses are received, considered and issued by the Licensing Admin Team. Vehicle licenses are issued by Fleet Services once authorised by the licensing admin team. The licensing system involves a number of people, including Licensing Admin Team, Community Safety Enforcement Officers, Fleet Services, Members and CRB and it is therefore important to ensure that a robust system is in place which is understood by all parties. The Council operate a Licensing Committee who consider and propose policy, and make decisions as a quasi-judicial body, on individual applications. Some decisions are delegated to officers and/or Head of Service.

Community Safety Enforcement Officers undertake enforcement activities in relation to taxi licensing. These officers investigate complaints in relation to taxis. There is intelligence to support the view that there are still a core of taxi operators/vehicles/drivers that are non compliant. DCC School Transport and Social Services also contract the services of licensed taxi operators/drivers to transport vulnerable people e.g children and the elderly. It is therefore of paramount importance to ensure that the taxi licensing system is operated safely to protect the safety of the public.

We recently had a case whereby a driver's licence was revoked following a complaint and subsequent evidence demonstrated that he had misled the Authority by failing to disclose his previous arrest and relevant enforcement history. This highlighted a need to review the scheme of delegations for revoking/suspending licenses, review policies and procedures relating to taxi licensing, and review of communication between the licensing section and other DCC sections namely social services and school transport.

The project involves undertaking a systems thinking review of the whole taxi licensing process, involving all relevant/involved parties. This process will then result in a series of recommendations which the project team will review and prioritise/implement accordingly. These are likely to include, review of scheme of delegation/constitution, developing a set of policies and procedures owned and communicated by all parties, development of a database to record all relevant information including enforcement activities and undertaking a comprehensive review of relevant fees and charges (which is already being undertaken separately).

OUT OF SCOPE

If this Project Proposal is approved please detail any elements (e.g. activities, functions, services, geographic areas) which will be specifically excluded from the project. Note that in-scope activity should have been defined in the Background Information section above.

OUTPUT

An output is what is physically created by the project e.g. a new or refurbished building, a policy or strategy document, a re-structured organisation or service, an event, a new software system installed, etc.

Reviewed, comprehensive and lean procedures
Development of a reliable and easy to access database of enforcement activities
A clear and correct scheme of delegation

OUTCOME

An outcome is what happens, or what should happen, as a consequence of delivering the output e.g. improved educational attainment, safer working practices, cheaper or more efficient service delivery, etc.

- Better understanding by all interested parties of the process of taxi licensing
- Greater confidence in the system
- Adherence to legal principles, relevant legislation and Department for Transport guidance
- Improved communication between service areas
- Clear understanding of roles and responsibilities of all interested parties in the process of taxi licensing
- Better and more informed decision making processes
- Improved protection of the public
- Improved use of existing ICT database (LALPAC)

